# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Ebrill 2018

Amser: 13.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

---

**(Rhag-gyfarfod)**

(13.45)

**(Cytunodd y Pwyllgor ar 23 Ebrill 2018 ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 1 & 2 y cyfarfod hwn.)**

## 1 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Sesiwn dystiolaeth 7

(14.00 - 14.30) (Tudalennau 1 - 30)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

David Melding AC - Cadeirydd Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru

## 2 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Sesiwn dystiolaeth 8

(14.30 - 15.00)

Lynne Neagle AC - Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(15.00)

## 4 Papur(au) i'w nodi

(15.00 - 15.05) (Tudalennau 31 - 32)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**4.1 Caffael Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (23 Ebrill 2018)**

(Tudalennau 33 - 34)

## 5 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Sesiwn dystiolaeth 9

(15.05 - 16.30) (Tudalennau 35 - 64)

PAC(5)-12-18 Papur 1 - Llywodraeth Cymru

Albert Heaney - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru

Alistair Davey - Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl, Llywodraeth Cymru

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(16.30)

Eitemau 7 a 8

## 7 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.30 - 16.45)

## 8 Gyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru i brosiect: Trafod yr adroddiad drafft

(16.45 - 17.15) (Tudalennau 65 - 114)

PAC(5)-12-18 Papur 2 - Adroddiad drafft

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Ebrill 2018

Amser: 14.23 - 16.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4742

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Karen Miles, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda<br>Mike Ogonovsky, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Nicola Prygodzicz, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Anthony Tracey, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft a chytunwyd arno.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Nicola Prygodzicz a Mike Ogonovsky o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Karen Miles ac Anthony Tracey o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fel rhan o'u hymchwiliad i Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru.

4.2 Cytunodd Mike Ogonovsky i anfon rhagor o wybodaeth am amserlen y prosiect LIMS (system rheoli gwybodaeth labordai).

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law.

**Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

23 Ebrill 2018

Annwyl Gadeirydd

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Mawrth a oedd yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion yn ymwneud ag adolygu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru.

Mae'n un o egwyddorion allweddol yr adolygiad mai barn ac adborth y rhanddeiliaid sy'n ei ysgogi. Mae'r grŵp rhanddeiliaid yn gyfrwng hanfodol felly i sicrhau bod llais pob un sydd â diddordeb yn cael ei glywed. Mae'n glir yn ôl cylch gorchwyl y grŵp rhanddeiliaid y bydd disgwyl i aelodau gael adborth gan gydweithwyr yn eu priod sectorau a sefydliadau, gan gynnwys y sefydliadau hynny nad ydynt o bosibl yn aelodau ar hyn o bryd. Cydnabyddir bod hyn yn ymrwymiad sylweddol ac mae tîm adolygiad Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gwbl glir y bydd yn cynnig cymaint o gymorth ag sy'n bosibl i alluogi grwpiau rhanddeiliaid i ymgymryd â'u rolau. Mae CLILC yn cydweithio â ni fel rhan o'r broses adolygu ac mae wedi rhannu manylion gwaith sy'n berthnasol i'r adolygiad, a wnaed ar draws y sector llywodraeth leol.

Mae mynd i'r afael â'r materion o allu a chapasiti caffael yn gyffredinol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhan sylfaenol o'r adolygiad, ac o'r hyn a ddaw yn ei sgil. Fel y trafodwyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r materion ym mhob cwr o Gymru a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain drwy raglen gallu caffael newydd maes o law. Byddwn hefyd yn ailystyried cyfraddau gwariant fesul gweithiwr caffael proffesiynol gydol yr adolygiad, fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol ac yn penderfynu gyda rhanddeiliaid a ydy'n bosibl dod o hyd i fethodoleg ystyrlon i Gymru gyfan, gan gadw mewn cof bod gwahanol gyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn gwahanol ffyrdd.

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn / Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Bydd yr adolygiad sy'n parhau hefyd yn ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw aelodau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dewis defnyddio trefniadau lleol neu gonsortia prynu cyhoeddus yn hytrach na fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ei hun.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi gofyn i'w gwsmeriaid am eu sylwadau ar ba mor effeithiol yw ei fframweithiau ac mae wedi gweithio gyda bwrdd y Gwasanaeth i hyrwyddo manteision defnyddio fframweithiau'r Gwasanaeth i brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin, ailadroddus, ac i annog aelodau i'w defnyddio. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi rhoi cipolwg allweddol ar y sefyllfa ac wedi dylanwadu ar lawer o ddatblygiadau cadarnhaol eisoes. Er enghraifft, mae dulliau rhanbarthol yn cael eu hystyried gyda'i aelodau yn awr, sydd wedi arwain, yn eu tro, at brosiectau peilot lle mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi cefnogi saith Awdurdod Lleol yn y De-orllewin i gyflawni eu gofynion o ran gwasanaethau ymgynghori ym maes peirianneg.

Fel y nodwyd gennych, bu materion tebyg mewn perthynas ag annog y defnydd o offer eGaffael. Mae llawer o waith yn cael ei wneud ar y cyd o dan arweiniad tîm categori TGCh y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer darpariaeth y dyfodol. Mae llawer o ddiddordeb yn y pwnc hwn ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar wahân i'r adolygiad, ond mae llawer o gysylltiadau ffurfiol yn rhan annatod ohono er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosibl o gydweithrediad â'r adolygiad.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi am ganlyniadau'r adolygiad wedi iddo gael ei gwblhau ac yn rhoi diweddariad hefyd ar y camau gweithredu a fydd yn deillio o ddau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn gywir

**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Eitem 5

# Papur Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc Sydd Wedi Bod Mewn Gofal

**Diben**

**Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am wariant a gwerth am arian gwasanaethau cyhoeddus i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal a'r camau sy'n cael eu cymryd ar draws Llywodraeth Cymru i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.**

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth i ymchwiliad hirdymor y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Blant a Phobl Ifanc sydd Wedi Bod Mewn Gofal a fydd yn rhychwantu pumed tymor cyfan y Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor wedi dweud ei fod yn awyddus i ganolbwyntio ar wariant a gwerth am arian gwasanaethau cyhoeddus i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig ar y pedwar maes a ganlyn a nodwyd gan y Pwyllgor:

1. Cost gyffredinol a gwerth am arian yr ystod o wasanaethau cyhoeddus â’r nod o wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal;

2. P'un a yw canlyniadau a ddymunir Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu cyflwyno gan y lefelau presennol o wariant cyhoeddus;

3. P'un a yw graddau gwariant sy'n benodol i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn ddigon tryloyw ar draws yr ystod o wasanaethau cyhoeddus;

4. P'un a yw cyrff cyhoeddus wedi gosod digon o bwyslais ar ddull gwariant ataliol ar gyfer yr hirdymor, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau y gwneir y gorau o wariant cyhoeddus ar gyfer y grŵp hwn o blant.

Darperir gwybodaeth ychwanegol hefyd i'r Pwyllgor ar feysydd y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt ar 14 Chwefror, ynghylch Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant a'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol i wella canlyniadau i blant yng Nghymru.

**Y cyd-destun**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen* yn ymrwymo i "archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau’r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill, a diwygio’r ffordd y gofelir amdanynt os bo angen". Caiff hyn ei ategu gan ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*, lle mae gofal cymdeithasol yn un o'r pum maes blaenoriaeth, gyda chamau i:

- wella cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant mewn gofal, gan roi lle canolog i'r plentyn, drwy sicrhau bod gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn cydweithio.
- cryfhau gwasanaethau ar ffiniau gofal er mwyn rhoi cymorth amserol i deuluoedd a lleihau'r niferoedd y mae angen darparu gofal ar eu cyfer a chynnig cymorth yn y cyfnod allweddol o newid ar ôl i blant sy'n gadael gofal gyrraedd 16 oed er mwyn iddynt fedru manteision ar addysg bellach, a dod o hyd i swyddi a thai.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod y fframwaith i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gydweithio er mwyn gwella llesiant Cymru, gan weithio mewn ffordd integredig a chydweithredol, ymgysylltu â phobl a chymunedau er mwyn ystyried y sefyllfa yn yr hirdymor ac atal problemau rhag codi neu waethygu. Gwyddom nad yw'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn cymharu'n ffafriol â'u cymheiriaid. Maent yn llai tebygol o gael cymwysterau addysgol da, mae ganddynt fwy o anghenion iechyd a thai, ac maent yn fwy tebygol o gamddefnyddio sylweddau a dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Fel ar 31 Mawrth 2017, roedd 5,954 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, sy'n gynnydd o 5% o gymharu â'r llynedd. Mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn 95 fesul 10,000 yng Nghymru, o gymharu â 62 fesul 10,000 yn Lloegr. Mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru ac er eu bod yn cyfateb yn gyffredinol i lefelau amddifadedd, ceir awdurdodau a chanddynt lefelau sylweddol o amddifadedd ond sydd â chyfraddau cymharol isel o blant sy'n derbyn gofal.

Cydnabyddir, ar draws y DU, y pwysau cynyddol a roddir ar y systemau llesiant plant a chyfiawnder teuluol. Dros y degawd diwethaf rydym wedi gweld cynnydd graddol ledled y DU yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. O blith nifer y plant a ddechreuodd dderbyn gofal yn 2016-17, cafodd 62% eu derbyn i ofal oherwydd camdriniaeth ac esgeulustod. Mae hyn yn amlygu nifer y plant sy'n cael eu diogelu rhag rhagor o gamdriniaeth neu esgeulustod yng Nghymru.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r Adolygiad o'r Argyfwng Gofal sy'n cael ei gynnal ledled Cymru a Lloegr gan y Grŵp Hawliau'r Teulu sy'n edrych ar y cynnydd mewn ceisiadau am orchmynion gofal a nifer y plant sydd mewn gofal. Mae swyddogion a phartneriaid ar draws sectorau yng Nghymru yn cymryd rhan yn yr adolygiad a fydd yn dod i ben ym mis Mehefin 2018.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod darparu gofal diogel, priodol i blant yn rhoi pwysau sylweddol o ran costau ar awdurdodau lleol. Yn 2016/17, cafodd bron 16,000 o blant gymorth gan wasanaethau plant. Mae tri chwarter y plant sy'n derbyn gofal yn cael eu rhoi mewn lleoliadau gofal maeth ac amcangyfrifir bod hyn yn costio £110 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol. Mae tua 5% o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu rhoi mewn gofal preswyl. Bydd gan y plant sy'n weddill drefniadau eraill megis lleoliadau gyda gofalwyr sy'n berthynas neu fabwysiadu.

Bydd y Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn sesiynau blaenorol o gost gyfartalog lleoliadau yng Nghymru - £23,327 ar gyfer lleoliad maeth mewn awdurdod lleol, £43,379 ar gyfer lleoliad gan Asiantaeth Faethu Annibynnol. Mae cost gyfartalog gofal preswyl yng Nghymru rhwng £3,000 a £3,500 yr wythnos

ond gwyddom fod cost lleoliadau arbenigol yn aml yn uwch. Mae lleoliad Llety Diogel yn Hillside yn costio oddeutu £800 y noson.

1. **Cost gyffredinol a gwerth am arian yr ystod o wasanaethau cyhoeddus â'r nod o wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodau lleol pan fyddant yn cyflawni ei dyletswyddau o ran plant sy'n derbyn gofal. Mae Rhan 6 yn ein galluogi i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai ar ffiniau gofal. Mae'n rhoi mwy o bwyslais ar ddargyfeirio plant yn ddiogel o ofal a darparu cymorth i alluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd

Caiff rhan helaethaf y cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ei gyflwyno drwy'r setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig a ail-ddosbarthwyd. Yn ogystal â hyn, mae nifer o ffynonellau cyllido ar gael i bob awdurdod, gan gynnwys y dreth gyngor, grantiau penodol ac incwm o ffioedd a thaliadau.

Mae'r ffaith nad yw'r setliad wedi'i neilltuo yn golygu mai'r awdurdodau sy'n penderfynu sut i wario'r cyllid hwn at unrhyw ddiben o'u dewis wrth ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, yn unol â blaenoriaethau a phwysau lleol, gan gynnwys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Caiff y cyllid refeniw craidd a ddarperir i awdurdodau lleol bob blwyddyn ei ddosbarthu yn unol ag angen, gan ddefnyddio fformiwla sy'n ystyried cyfoeth o wybodaeth am nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol awdurdodau. Mae'r fformiwla ariannu hon wedi cael ei datblygu drwy ymgynghori â llywodraeth leol drwy'r Is-grŵp Dosbarthu o dan oruchwyliaeth Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru.

Mae fformiwla ariannu'r setliad yn rhannu cyfanswm y cyllid sydd ar gael a'r incwm tybiedig o'r dreth gyngor yn oddeutu 50 o feysydd gwasanaeth a elwir yn asesiadau wedi'u seilio ar ddangosyddion. Yna caiff fformiwla ei chymhwyso i bob asesiad wedi'i seilio ar ddangosyddion i fodelu'r angen cymharol i wario ar draws pob awdurdodau ac ar draws pob gwasanaeth.

Bydd fformiwla'r setliad ar gyfer 2018-19 yn dosbarthu £445 miliwn ar fformiwla gwasanaethau cymdeithasol plant a phobl ifanc. Mae'n bwysig nodi nad targedau gwario yw'r Asesiadau hyn.


Yn ogystal â'r brif fformiwla pobl ifanc, trosglwyddwyd dros £7 miliwn i setliad 2018-19 i gyflawni blaenoriaethau'n ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal. Roedd yr arian hwn yn rhan o gyllideb ganlyniadau y DU a ddarparwyd yn 2017-18 gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, i

hyrwyddo'r defnydd o gyllidebau cyfunol. Yn benodol, mae'n ofynnol iddynt ystyried sefydlu cyllidebau cyfunol pan fydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn datblygu gwasanaethau ar y cyd mewn ymateb i asesiadau o anghenion eu poblogaeth i helpu i gyflawni gwerth am arian a gwell canlyniadau. Mae canllawiau statudol yn amlinellu bod yn rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â phlant a chanddynt anghenion cymhleth. Mae gan weinidogion bwerau i sefydlu cronfeydd cyfunol.

**Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol**


Mae'r siart isod yn dangos gwariant cenedlaethol awdurdodau lleol[1] ar wasanaethau plant a theuluoedd a gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal dros y pum mlynedd diwethaf.




Mae'r cynnydd yn y gwariant gwirioneddol yn cyd-fynd â'r cynnydd bach yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal ers 2015.

Mae'n werth nodi ar lefel genedlaethol, bod gwariant gwirioneddol Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cynyddu 24% dros y cyfnod pum mlynedd ac mae'r gwariant gwirioneddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal dros yr un cyfnod wedi cynyddu 15%.

[1] Stats Cymru (Hydref 2017). Refeniw awdurdodau lleol fesul grŵp cleientiaid (£ miloedd) https://statswales.gov.wales/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Social-Services/social-services-socialservicesrevenueexpenditure-by-clientgroup




Er bod y darlun cenedlaethol yn dangos bod y gwariant a ddyrannwyd i blant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu, mae swm cyffredinol y gyllideb plant a phobl ifanc a ddyrennir i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol wedi gostwng rhyw fymryn.

**Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n Cael ei Arwain gan Wasanaethau Cymdeithasol**

Y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant

Sefydlwyd y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant er mwyn gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a nodi pa ymyriadau cynnar a chamau ataliol y gellid eu cymryd i helpu i leihau niferoedd y plant sy'n mynd i ofal.

Roedd cyllideb y rhaglen ar gyfer 2017-18 yn £125,000, a chynigiwyd cynyddu'r gyllideb i £270k ar gyfer 2018-19 ( yn amodol ar gymeradwyaeth) er mwyn ymgorffori meysydd gwaith eraill sy'n dod o fewn rhaglen Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

2017-18 - buddsoddiad o £8 miliwn mewn Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn dilyn cyllideb ganlyniadol gwerth £20 miliwn y DU ar gyfer gofal cymdeithasol, darparodd Llywodraeth Cymru £8 miliwn o gyllid cylchol i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r gwelliannau a ariannwyd drwy'r cyllid hwn wedi cael eu cynnwys yn rhaglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Defnyddir y cyllid hwn fel a ganlyn:

- £5 miliwn i ehangu gwasanaethau ffiniau gofal awdurdodau lleol.
- £850,000 i gyflwyno'r prosiect Reflect ar draws pob un o'r 7 rhanbarth yng Nghymru i gefnogi mamau y mae eu plant wedi bod yn rhan o'r system ofal er mwyn atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol.
- £400,000 i roi'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar waith ledled Cymru.

- £125,000 i ddatblygu dull cenedlaethol o ddarparu cymorth mabwysiadu
- Ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid fel a ganlyn:
    - £625,000 i sicrhau bod eu hyfforddeiaethau a'u lleoliadau gwaith yn canolbwyntio ar y rhai sy'n gadael gofal.
    - £1 filiwn i ymestyn y ddarpariaeth o gynghorwyr personol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal sydd rhwng 21 a 25 oed.

Yn ystod 2017-18, cafodd yr arian hwn ei ddosbarthu fel grant i awdurdodau lleol a bydd yn trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2018-19 ymlaen. Er gwybodaeth, bydd y cyllid a ddarperir i gefnogi gwasanaethau cenedlaethol yn cael ei ddosbarthu gan CLlLC i'r awdurdod lleol sy'n lletya'r gwasanaeth, fel a ganlyn:

- £400,000 ar gyfer y Fframwaith Maethu Cenedlaethol i Awdurdod Lleol Bro Morgannwg
- £125,000 ar gyfer cymorth mabwysiadu i Awdurdod Lleol Caerdydd
- £60,000 (o'r 850,000) ar gyfer cyfrifoldebau Reflect cenedlaethol i Awdurdod Lleol Casnewydd

Mae awdurdodau lleol wedi darparu ffigurau gwariant canol blwyddyn a byddant yn cyflwyno ffurflenni ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol. Caiff y rhain eu cynnwys mewn adroddiad diwedd blwyddyn i Weinidogion Cymru a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ei ystyried. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd hyd yma isod:

<u>£5 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Ffiniau Gofal</u>
Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cael ei ddarparu i awdurdodau lleol er mwyn sefydlu neu wella gwasanaethau ffiniau gofal er mwyn cefnogi teuluoedd i helpu i atal plant rhag mynd i ofal. Mae ymyriadau'n canolbwyntio ar greu capasiti a chydnerthedd drwy gamau adferol cydlynus sy'n galluogi teuluoedd i newid ymddygiad.

Dyrannwyd y cyllid i gydnabod yr amrywiol fathau o wasanaethau ffiniau gofal sy'n cael eu darparu ledled Cymru a'r mannau cychwyn gwahanol ar gyfer pob awdurdod lleol. Rhagwelir bod gan y buddsoddiad hwn y potensial i atal tua 300 o blant rhag ymuno â'r system gofal bob blwyddyn.

<u>Astudiaeth Achos</u>
Mae gan Gasnewydd wasanaeth Ffiniau Gofal sefydledig sydd wedi cael ei werthuso'n allanol gan IPC, a hynny'n gadarnhaol. Caiff y gwasanaeth ei redeg ar ffurf partneriaeth gyda Barnardo's. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu amrywiaeth o ddarpariaeth gan gynnwys Atal, Tîm Cymorth i Deuluoedd, Tîm Cymorth Asesu Teuluoedd a'r Gwasanaeth Cyswllt.

Mae'r holl gyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gynyddu capasiti'r gwasanaeth presennol sy'n amrywio o swyddi ychwanegol yn y maes Atal i ofod ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Cyswllt.

Yn ystod y cyfnod hwn mae Casnewydd wedi ailgomisiynu ei wasanaethau Ffiniau Gofal ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda Barnardo's i adolygu a gwella ei ddarpariaeth bresennol o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn

cynnwys adolygu sawl elfen o'r ymyriadau presennol ac ystyried newid cwmpas rhai elfennau o'r gwaith. Bydd hyn yn sail i'r defnydd tymor hwy o'r cyllid ychwanegol o fis Ebrill 2018 ymlaen.

£850,000 - Prosiect Reflect
Mae'r £850,000 ychwanegol wedi helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r prosiect Reflect ar draws pob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru yn dilyn lansio'r prosiect yn rhanbarth Gwent ym mis Mawrth 2017, sydd hefyd yn cael ei gefnogi gan gyllid Llywodraeth Cymru.

â Mae'r prosiect Reflect wedi cael ei ddatblygu i ymgysylltu menywod y mae eu plentyn wedi cael ei gymryd oddi arnynt a'i roi yn y system ofal a'u cefnogi er mwyn helpu i atal hyn rhag digwydd eto. Mae cyfatebiaeth gadarn rhwng nodau'r prosiect a'n hangeda atal ac ymyrryd yn gynnar. Gwyddom fod achosion gofal ailadroddus yn arwain at gost bersonol sylweddol i'r mamau eu hunain, eu plant a'u teuluoedd.

Mae digwyddiad dysgu cenedlaethol 'Reflect' yn cael ei gynnal ym mis Mai i bwyso a mesur datblygiadau Reflect ledled Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y digwyddiad hefyd yn helpu i rannu'r gwersi a ddysgwyd a hyrwyddo cysondeb o ran ymarfer ledled Cymru wrth i'r gwasanaeth ddatblygu'n gyflym.

Astudiaeth Achos
Cyfeiriwyd Menyw A at Brosiect Reflect ym mis Mai 2017. Mae ei dau blentyn wedi cael eu cymryd oddi arni a'u rhoi mewn gofal, y naill ym mis Mawrth a'r llall ym mis Mai 2016. Arweiniodd hyn at y plentyn hynaf yn cael gofal gan nain a thaid y plentyn ar ochr y tad o dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig a'r plentyn ieuengaf yn cael ei roi mewn gofal maeth gyda'r posibilrwydd o gael ei fabwysiadu.

Mae Menyw A yn fenyw 28 oed sydd wedi gadael gofal ac mae ganddi hanes hir o fod mewn perthynas lle mae'n cael ei cham-drin. Mae wedi cael diagnosis o anhwylder personoliaeth ffiniol sy'n effeithio ar ei gallu i gynnal perthynas, asesu risgiau oherwydd ei bod yn fyrbwyll a'r gallu i feddwl yn rhesymegol mewn sefyllfaoedd. Mae hi hefyd yn dioddef o orbryder ac iselder.

Mae Reflect wedi bod yn ei chefnogi i wella ei chydnerthedd meddyliol ac emosiynol, yn ei helpu i gael mynediad i wasanaethau iechyd rhywiol ac yn darparu cymorth ymarferol mewn perthynas â thai a chyllid.

£400,000 - Fframwaith Maethu Cenedlaethol
Rhoddir diweddariad llawn ar y cynnydd o ran y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a'i weithrediad yn y briff ychwanegol.

£125,000 - Cymorth Mabwysiadu
Buddsoddwyd £125,000 ychwanegol er mwyn darparu cymorth mabwysiadu therapiwtig. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi datblygu 'Fframwaith ar gyfer Cymorth Mabwysiadu' sy'n amlinellu sut mae'n ceisio gwella cymorth mabwysiadu a gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu dros gyfnod o amser.

Mae'r Fframwaith wedi cael ei ddatblygu drwy ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau (mabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu yn bennaf) ac mae'n seiliedig ar fodel o wasanaethau arbenigol, unffurf sydd wedi'u targedu. Mae cynllun datblygu parhaus ar gyfer gweithredu'r fframwaith ochr yn ochr â chwilio am adnoddau newydd ac aildargedu adnoddau presennol er mwyn rhoi'r gwelliannau sydd eu hangen ar waith.

Mae'r Fframwaith wedi cyflawni'r pethau ganlyn:

- Cynnig 1 flwyddyn o aelodaeth o AUK i bawb sy'n mabwysiadu am y tro cyntaf
- Asesiadau newydd o gymorth ar ôl mabwysiadu
- Gwelliannau i'r ffordd y darperir gwaith taith bywyd
- Gweithio gydag iechyd ac addysg i sicrhau bod eu gwasanaethau yn 'ymwybodol o fabwysiadu' gan gynnwys gwasanaethau CAMHS.
- Hyrwyddo modelau arfer da e.e. y gwasanaeth seicoleg sy'n cefnogi asesiadau a gwasanaethau llesiant emosiynol i blant sydd, neu a fydd, yn cael eu mabwysiadu

Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i ddatblygu fframwaith diwygiedig, pecyn offer a chanllawiau ymarfer ar gyfer gwaith taith bywyd a chanllawiau (wedi'u hariannu gan adran Addysg Llywodraeth Cymru) i athrawon a rhieni sydd wedi'u mabwysiadu ynghylch cefnogi plant sydd wedi'u mabwysiadu yn yr ysgol, wedi'u hategu gan ddosbarthiadau meistr.

**Y Rhai sy'n Gadael Gofal**

Yn ei hadroddiad *Breuddwydion Cudd*, amlygodd y Comisiynydd Plant anghenion cymorth y rhai sy'n gadael gofal a chyfrifoldebau rhianta corfforaethol parhaus awdurdodau lleol i'r rhai sy'n gadael gofal wrth iddynt bontio i fywyd fel oedolyn ac annibyniaeth. Mae cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi llywodraeth genedlaethol a lleol i ddatblygu gwasanaethau a chyflawni'r argymhelliad a nodir yn Adroddiad y Comisiynydd Plant.

<u>£1 filiwn ar gyfer Cynghorwyr Personol</u>
Mae Awdurdodau Lleol wedi cael cyllid ychwanegol i ymestyn cymorth gan gynghorwyr personol i'r rhai sy'n gadael gofal sy'n 21-25 oed. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn defnyddio'r cyllid hwn i gynyddu capasiti'r gweithlu cynghorwyr personol er mwyn i ddarpariaeth estynedig gael ei chynnal i'r rhai sy'n gadael gofal sy'n 21-25 oed.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar opsiynau deddfwriaethol posibl er mwyn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth drwy gynghorydd personol i'r rhai sy'n gadael gofal nes eu bod yn 25 oed.

| |
|---|
| <u>Astudiaeth Achos</u><br><br>Mae Castell-nedd Port Talbot wedi dechrau'r broses o ailagor achosion ar sail 'optio i mewn' ac wedi ysgrifennu at bob person ifanc o dan 25 oed a arferai fod yng Nghategori 3. |

Hyd yma mae Castell-nedd Port Talbot wedi cael ugain o ymholiadau ac yn defnyddio'r model a sefydlwyd gan y broses Ailgysylltu â Gofal, gan gwblhau asesiad cymesur Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i nodi meysydd o angen cyn dyrannu i Gynghorydd Pobl Ifanc ar gyfer cymorth parhaus.

Bydd y cymorth a ddarperir yn unol â'r cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal - cyfeirio, cyngor ac arweiniad. Bydd Castell-nedd Port Talbot yn parhau i hyrwyddo annibyniaeth gan gynnwys cynyddu'r cymorth gan y trydydd sector, mynediad i fanteision a ffrydiau ariannu a hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Darperir cymorth ariannol ar sail disgresiwn os bydd tystiolaeth o angen.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnig cymorth gan gynghorydd personol i bob person ifanc tan eu pen-blwydd yn 25 oed, oni bai eu bod yn dweud nad oes angen cymorth o'r fath arnynt. Mae Castell-nedd Port Talbot wedi recriwtio Cynghorydd Pobl Ifanc ychwanegol er mwyn diwallu'r angen hwn.

£625,000 ar gyfer cynlluniau Prentisiaethau/Hyfforddeiaethau Awdurdodau Lleol

Darparwyd cyllid i awdurdodau lleol i ehangu neu wella eu hyfforddeiaethau a'u lleoliadau gwaith yn benodol i bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd rhwng 16 a 18 oed. Drwy wneud hyn, mae awdurdodau lleol yn cyflawni rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol drwy gynnig dull 'busnes teuluol' o ddarparu profiad gwaith i'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei chynllun lleoliad gwaith ei hun i'r rhai sy'n gadael gofal a bwriedir iddo fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Astudiaeth Achos

Mae awdurdod lleol Sir y Fflint wedi datblygu cynllun awdurdod lleol o'r enw Boost. Mae'r cynllun ar gael i unrhyw un 16 oed a throsodd sy'n gadael gwasanaeth gofal ac mae wedi'i gynllunio i roi hwb i gyfleoedd gyrfa mewn meysydd fel arlwyo, gofal, adeiladu neu arddio. Bydd y cyfranogwyr yn cael cynnig profiad gwaith o 1 diwrnod yr wythnos dros gyfnod o 12 wythnos, byddant yn dysgu sgiliau cyfweliad a sut i lunio CV ac yn cael geirda ar ddiwedd y rhaglen. Yn ogystal, bydd pawb sy'n gadael gofal yn cael ei baru â mentor.

£1 filiwn ar gyfer Cronfa Dydd Gŵyl Dewi

Ar 1 Mawrth 2017 cyhoeddwyd Cronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 filiwn i gynorthwyo pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol neu sydd wedi derbyn gofal o'r fath i fanteisio ar gyfleoedd sy'n eu harwain tuag at fywyd annibynnol a llwyddiannus.

Nod y Gronfa hon ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed, sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol neu sydd wedi derbyn gofal o'r fath, yw rhoi mynediad i gyfleoedd sy'n eu harwain tuag at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Caiff y Gronfa ei gweinyddu'n hyblyg ac yn greadigol gan awdurdodau lleol, fel rheini corfforaethol, i ddiwallu

anghenion eu plant a'u pobl ifanc yn yr un ffordd ag y mae rhieni biolegol yn helpu eu plant hwy. Ymysg yr enghreifftiau o gymorth ariannol mae cymorth i gael cartref, cyfarpar ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, talu am drafnidiaeth, bondiau ar gyfer tai, pasbortau a gweithgareddau sy'n helpu i ddileu arwahanrwydd cymdeithasol ac ati.

<u>Astudiaeth Achos</u>

Drwy ddefnyddio'r grant Dydd Gŵyl Dewi, mae awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gallu darparu taliadau hyfforddiant cymhelliant sy'n cyfateb i lwfansau hyfforddi i'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn dilyn cyrsiau megis rhaglenni Galwedigaethol ac Ymgysylltu gan gynnwys rhai Ymddiriedolaeth y Tywysog, prosiect Fairbridge a Ready 2 Engage YMCA. Er mwyn cefnogi hyfforddiant mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi ariannu cardiau bws a thocynnau trên wythnosol i'r rhai sy'n gadael gofal sydd ar incwm isel (isafswm cyflog/contractau Dim Oriau), addysg (y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael cerdyn bws y coleg) a hyfforddiant.

Roedd yn rhaid i un person a oedd yn gadael gofal, sy'n cael budd-daliadau o £57.90 yr wythnos ar hyn o bryd, dalu £15 yr wythnos am docynnau tren er mwyn mynd i'r coleg. Roedd hyn yn gyfran sylweddol o'i fudd-daliadau ac roedd yn cael anhawster i reoli ei arian. Drwy roi cerdyn tren misol i'r person ifanc hwn, mae'n dweud nad yw bellach yn wynebu cymaint o galedi ariannol ac nad yw bellach yn ystyried rhoi'r gorau i fynd i'r coleg. Mae bellach yn mynd i'r coleg bob dydd ac wedi gallu teithio i gwrdd â theulu a chyfoedion gyda'r nosau ac ar benwythnosau, gan leihau teimladau o arwahanrwydd cymdeithasol a gwella ei lesiant yn gyffredinol.

Mae Cronfa Dydd Gŵyl Dewi o fewn cwmpas y cynllun Ariannu Hyblyg ar gyfer awdurdodau lleol peilot o fis Ebrill 2018 ymlaen.  Os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y gronfa yn cael ei darparu i bob awdurdod lleol drwy'r cynllun hwn.

<u>Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2016-19</u>
Pwrpas y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2016-19 yw cefnogi blaenoriaethau Gweinidogion Cymru i gael perthynas newydd a chyfartal rhwng pobl ac ymarferwyr; ymyrraeth gynnar ac atal; a thrawsnewid y ffordd y mae anghenion gofal a chymorth pobl yn cael eu diwallu. Amlinellwyd hyn yn gyntaf yn y ddogfen Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy - Fframwaith Gweithredu ac fe'i rhoddwyd ar sylfaen statudol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dros oes y grant 3 blynedd (2016-19), bydd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £5 miliwn mewn cynlluniau grant sydd wedi'u hanelu at gefnogi gwell canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu drwy'r sefydliadau a ganlyn:

- Adoption UK
- Gweithredu dros Blant
- Plant yng Nghymru
- Cymdeithas Plant Dewi Sant
- Y Rhwydwaith Maethu

- Voices from Care

Darparwyd rhagor o wybodaeth am y grantiau a ddyfernir i'r trydydd sector i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mhapur cwmpasu Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016.

Eiriolaeth - Plant a Phobl Ifanc
Gyda'n partneriaid, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Dull Gweithredu Cenedlaethol ar Eiriolaeth Statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen ac unigolion penodedig eraill. Mae hyn yn golygu cysondeb o ran hawl ac arfer da wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau eiriolaeth statudol yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth ohonynt.  Mae cost y Dull Gweithredu Cenedlaethol oddeutu £1 miliwn.

Yn Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Ddarpariaeth Statudol, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ymrwymiad ar y pryd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad o hyd at £550,000 i Ardaloedd Cydweithredol Rhanbarthol y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn darparu'r cynnig yn llawn a chefnogi'r dull gweithredu. Bydd gweddill y cyllid yn dod o gronfeydd awdurdodau lleol eu hunain. Darperir y cyllid hwn drwy grant i awdurdodau lleol am yr ail flwyddyn yn 2018-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu ei weithrediad ar ddiwedd 2018/19.

Dechreuodd y gwaith o gyflwyno'r Dull Gweithredu Cenedlaethol fis Gorffennaf diwethaf. Cytunwyd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn hyrwyddo'r gwaith gweithredu a monitro ei effeithiolrwydd. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 21 Chwefror.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o £550,000 i Pro-Mo Cymru ar gyfer prosiect MEIC sy'n darparu llinell gymorth cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru hyd at 25 mlwydd oed.

**Addysg**

Grant Datblygu Disgyblion - Plant sy'n derbyn gofal

Nod ein cyd-strategaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol *'Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 yw cryfhau'r trefniadau i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael cymorth drwy gyllid y Grant Datblygu Disgyblion.

Ers mis Ebrill 2015, mae elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cael ei dirprwyo i'r pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol i gefnogi dull mwy strategol, rhanbarthol i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu.  Gan weithio gyda'u hawdurdodau lleol a'u hysgolion, mae'r consortia'n gyfrifol am sut y buddsoddir y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Caiff dyraniadau i'r consortia eu cyfrifo ar sail nifer y plant sy'n derbyn gofal o fewn eu hardal sy'n golygu eu bod yn derbyn adnoddau digonol i allu comisiynu gwasanaethau'n strategol, gan gyflawni arbedion maint a gwerth am arian.

Ym mis Mawrth 2017, estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi mwy o ddysgwyr sy'n derbyn gofal (gan gynnwys plant 3 oed). Roedd cyfanswm o 3,907 o ddysgwyr sy'n derbyn gofal yn gymwys i gael Grant Datblygu Disgyblion yn 2017-18.

Yn 2017-18 buddsoddwyd dros £90 miliwn yn y Grant Datblygu Disgyblion ac mae cynlluniau i fuddsoddi £187 miliwn yn rhagor yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu i £4,493,050 ar gyfer 2016-17 (o £3,770,850 yn 2016-17).

Mae cydlynwyr rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion yn cyflawni rhaglen waith strategol y cytunwyd arni yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a rhanbarthol.

O ran dangos tystiolaeth o werth am arian ac effeithlonrwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ICF Consulting Limited i werthuso'r ffordd y mae'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi cael ei weithredu a'i reoli gan y consortia yn ystod y blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn edrych ar y trefniadau gwahanol sydd ar waith yn y consortia, yr awdurdod lleol ac ar lefel ysgolion. Mae ICF Consulting hefyd wedi cael y gorchwyl o ymchwilio i sut y mae'r cyllid wedi'i wario ledled Cymru ac i ystyried sut y mae rhanddeiliaid yn penderfynu ar y dulliau mwyaf effeithiol o ran cyflawni nodau ac amcanion y grant.

Bydd adroddiad ar ganfyddiadau'r ymchwil yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2018 a bydd hyn yn sail i'n cynlluniau ar gyfer y grant yn y dyfodol.

Gwariant Arall ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg

Mae £250,000 arall o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg yn cefnogi datblygu polisïau sy'n dileu rhwystrau i ddysgu. Caiff y gyllideb hon ei chadw gan Lywodraeth Cymru a'i defnyddio i ariannu camau gweithredu megis datblygu canllawiau, cynnal digwyddiadau i ymarferwyr sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal, a diogelu. Mae gweithgareddau wedi cynnwys noddi'r project peilot Llesiant maethu, a gomisiynwyd gan Brifysgol Caerdydd i letya'r gymuned ymarfer ar-lein, ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, hyrwyddo'r canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion a datblygu adnoddau hyfforddi, datblygu canllawiau arfer da i helpu i gefnogi'r gofal y mae pobl ifanc sy'n mynychu Sefydliadau Addysg Bellach yn ei gael a hwyluso'r Grŵp Strategol Cenedlaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal Mewn Addysg.

**Tai**

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Lwybr Atal Digartrefedd ymysg Ieuenctid a'r Fframwaith Llety i'r Rhai sy'n Gadael Gofal i helpu i gynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed i ganfod llety priodol ac addas.

Nod y Fframwaith Llety i'r Rhai sy'n Gadael Gofal yw helpu'r holl sefydliadau i gydweithio i helpu plant sy'n gadael gofal i'w paratoi i fyw'n annibynnol a hefyd i sicrhau eu bod yn dod o hyd i gartref addas. Mae'r Llwybr ar gyfer Atal Digartrefedd Ymysg Ieuenctid yn gweithredu ochr yn ochr â'r Fframwaith Llety i'r Rhai sy'n Gadael Gofal ac yn sicrhau bod pob person ifanc yn cael cymorth i ddod o hyd i dŷ o ansawdd da a'i gadw.

Cynllunio yw'r allwedd i atal digartrefedd ac mae'r dogfennau fframwaith yn ymchwilio i ddull system gyfan o ymdrin â phopeth o wybodaeth i lety. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am sut i gael help gyda thai a chymryd camau i helpu i roi terfyn ar ddigartrefedd a'i atal.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu pobl sy'n agored i niwed i ddod o hyd i gartref a'i gadw ac i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol tuag at atal digartrefedd. Mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi'u gorgynrychioli ymysg pobl ddigartref ac maent yn elwa o ystod gyfan o wasanaethau a ddarperir drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, megis datblygu hunan-fri a sgiliau cyllidebu.

<u>Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal</u>

| Blwyddyn | Cyllid | Unedau | Canlyniadau |
|---|---|---|---|
| Cynllun Gwario 2014/15 | £940,097 | 88 o Unedau | 619 |
| Cynllun Gwario 2015/16 | £758,668 | 85 o Unedau | 579 |
| Cynllun Gwario 2016/17 | £682,049 | 90 o Unedau | 145 (6 mis Cyntaf) |
| Cynllun Gwario 2017/18 | £606,669 | 82 o Unedau | I'w gadarnhau |

**Iechyd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS) yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda bron £8 miliwn o gyllid newydd y flwyddyn i recriwtio staff arbenigol newydd a datblygu gwasanaethau newydd megis gwasanaethau niwroddatblygiadol, gofal mewn argyfwng ac ymyrraeth gynnar mewn seicosis. Mae hyn yn golygu bod gan blant a phobl ifanc fynediad haws, mwy amserol i wasanaeth priodol i ddiwallu eu hanghenion iechyd emosiynol a meddyliol.

Yn yr un modd â darpariaeth ehangach y GIG, nid yw CAMHS yn rhoi triniaeth flaenoriaethol i unrhyw grŵp neu garfan, megis plant a phobl ifanc mewn gofal. Yn hytrach, egwyddor ganolog gwasanaeth y GIG yw ei fod yn cael ei ddarparu ar sail angen clinigol yr unigolyn, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2015-16 yn dangos gwariant o £45.8 miliwn ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (cynnydd o gymharu â £41.3 miliwn yn y flwyddyn flaenorol) sy'n cynrychioli saith y cant o gyfanswm gwariant iechyd meddwl o £683 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae data perfformiad CAMHS yn dangos gwelliant o ran y rhai sy'n aros i gael mynediad i CAMHS dros y 12-18 mis diwethaf, gyda mwy o bobl ifanc bellach yn cael eu gweld o fewn ein targed newydd 28 diwrnod ar gyfer gwasanaethau CAMHS arbenigol.

Sefydlwyd y Ffrwd Waith Cydnerthedd ac Ymyrraeth Gynnar y Rhaglen Law yn Llaw at Bobl Ifanc ym mis Mehefin 2017 i ystyried datblygu cydnerthedd cyffredinol ymysg plant a phobl ifanc ac ymyrraeth gynnar lle mae angen hynny mewn perthynas â llesiant emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc. Mae nodi'r cymorth sydd ar gael ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu yn un o flaenoriaethau allweddol y ffrwd waith.

**2. P'un a yw canlyniadau a ddymunir Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal yn cael eu cyflwyno gan y lefelau presennol o wariant cyhoeddus**

Nodir y canlyniadau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal yn ei Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen* sy'n ymrwymo i "archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau’r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill, a diwygio’r ffordd y gofelir amdanynt os bo angen".

Mae'r strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*, yn cynnwys gofal cymdeithasol fel un o'r pum maes blaenoriaeth, gyda chamau i:

- wella cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant mewn gofal, gan roi lle canolog i'r plentyn, drwy sicrhau bod gasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn cydweithio.
- cryfhau gwasanaethau ar ffiniau gofal er mwyn rhoi cymorth amserol i deuluoedd a lleihau'r niferoedd y mae angen darparu gofal ar eu cyfer a chynnig cymorth yn y cyfnod allweddol o newid ar ôl i blant sy'n gadael gofal gyrraedd 16 oed er mwyn iddynt fedru manteision ar addysg bellach, a dod o hyd i swyddi a thai.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u hymgorffori yn rhaglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant. Rhaglen waith sy'n esblygu yw hon a disgwylir iddi bara drwy gydol tymor y Cynulliad hwn. Mae'n ddynamig o ran ei

dyhead a'i chyrhaeddiad a'i nod yw bod yn hyblyg er mwyn i flaenoriaethau newydd gael eu hystyried wrth i gynnydd gael ei wneud.

Cwblhawyd Cam 1 yn 2015-16, a chytunodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar raglen Cam 2 i'w chynnal yn 2015 o dan arweiniad Grŵp Cynghori'r Gweinidog, dan gadeiryddiaeth David Melding AC. Ym mis Tachwedd 2017, cytunodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol y byddai'r Grŵp yn parhau i ddarparu cyngor i'r Gweinidog.

Mae gwaith y Grŵp yn seiliedig ar dair thema allweddol:

- atal plant rhag mynd i ofal ac ymyrraeth gynnar
- gwella canlyniadau i blant sydd eisoes mewn gofal
- cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i gael dyfodol llwyddiannus a byw yn annibynnol

Mae'n datblygu rhaglen eang a phellgyrhaeddol fel rhan o Gam 2, wedi'i rhannu'n dair ffrwd waith benodol:

- Ymarfer Proffesiynol
- Asesu Risg a Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal; a
- Cynllunio Parhad a Datblygu Lleoliadau Sefydlog

Caiff pob ffrwd waith ei chadeirio gan Bennaeth Gwasanaethau Plant awdurdod lleol a'i is-gadeirio gan gynrychiolydd o'r trydydd sector. Mae ffrwd waith newydd ar Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn cael ei sefydlu. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen waith yn cynnwys 27 o feysydd gwaith sy'n cwmpasu ymchwil, prosiectau peilot, datblygiadau polisi a gwelliannau i ymarfer proffesiynol. Nod y rhaglen hon yw cyfrannu at leihau achosion o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs).

Mae'r Grŵp wedi sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ddiweddar, sy'n gyfrifol am ddatblygu ystod o ddangosyddion sentinel sy'n gallu dangos tystiolaeth o ganlyniadau ac effaith rhaglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Bydd y dangosyddion hyn yn cyd-fynd â fframwaith canlyniadau'r gwasanaethau cymdeithasol a'r nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ar ran y Gweinidog, mae'r Grŵp wedi cynhyrchu *Fframwaith Gweithredu*, sy'n amlinellu gweledigaeth i sicrhau bod cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal yr un fath â rhai plant eraill. Bydd y Fframwaith, sy'n disgrifio sut y bydd gwaith y Grŵp yn helpu i wireddu uchelgais y Llywodraeth fel y nodir yn *Symud Cymru Ymlaen* erbyn 2020 yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos. Er enghraifft:

Ein cynllun addysg a gwasanaethau cymdeithasol 3 blynedd *'Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*', a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, sydd â'r nod o gryfhau'r trefniadau i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal. Rydym wedi ein calonogi bod 23% o'r plant yng Nghyfnod Allweddol 4 (haf 2016) sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cyflawni trothwy Lefel 2 cynwysedig,

sef cynnydd o 10% o gymharu â 2013. Mae'r buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion y cyfeirir ato uchod yn parhau, gan ddarparu sefydlogrwydd ariannol i gonsortia addysg rhanbarthol er mwyn iddynt allu parhau i dargedu'r cymorth addysgol tuag at blant sy'n derbyn gofal, gan arwain at ddealltwriaeth lawer gwell o'r rhwystrau y mae dysgwyr sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu a'r ffyrdd y gellir dileu'r rhwystrau hynny.

Buddsoddiad mewn prosiect peilot addysgeg, wedi'i arwain gan Y Rhwydwaith Maethu, mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol cwm Taf a'r Bwrdd Partneriaeth Llesiant. Mae'r prosiect yn cefnogi pawb sy'n rhan o fywydau plant a phobl ifanc sydd wedi'u maethu i ddeall sut y mae addysg a sgiliau bywyd yn datblygu mewn dull cyfannol ac ymateb i hynny.

Gwyddom fod 39% o'r rhai sy'n gadael gofal (yn 19 oed) yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuenctid, ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phartneriaid eraill i sicrhau bod y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fod yn NEET neu sydd eisoes yn NEET yn cael eu nodi ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu i ddod yn economaidd weithgar. Yn benodol, rydym wedi darparu cyllid o £625,000 i awdurdodau lleol i sefydlu neu wella cynlluniau 'busnes teuluol', sy'n cynnig hyfforddiant a chyfleoedd swyddi i'r rhai sy'n gadael gofal yn eu meysydd cyflogaeth niferus.

Argymhellodd Adolygiad Diamond o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru y dylai'r rhai â phrofiad o ofal gael yr uchafswm o gymorth cynhaliaeth er mwyn mynd i addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn deddfu i alluogi'r rhai sydd wedi bod mewn lleoliad gofal i gael y lefel uchaf posibl o grant cynhaliaeth o 2018/19 ymlaen.

Mae rhwng 20% a 30% o bobl ifanc ddigartref wedi bod mewn gofal. Dyrannwyd £83,000 i Llamau er mwyn datblygu'r bartneriaeth End Youth Homelessness Cymru (EYHC). Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Prif Weinidog fuddsoddiad o £10 miliwn tuag at gynllun degawd o hyd i roi terfyn ar ddigartrefedd ymysg ieuenctid yng Nghymru i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o roi terfyn ar ddigartrefedd ymysg ieuenctid y wlad erbyn 2027.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol i ystyried caniatáu i bawb sy'n gadael gofal rhwng 18 a 25 oed beidio talu'r dreth gyngor. Ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol o 6 awdurdodau lleol sy'n ystyried cyflwyno eithriadau i'r rhai sy'n gadael gofal o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Rydym yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol eraill yn gwneud yr un peth a byddwn yn fodlon diweddaru'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

3. **P'un a yw gwariant sy'n benodol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ddigon tryloyw ar draws yr ystod o wasanaethau cyhoeddus.**

Fel y nodir ar ddechrau'r papur hwn, mae'r rhan fwyaf o gyllid a gwariant ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol, ac mae'r rhan fwyaf o hwnnw wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae natur heb ei neilltuo y setliad wedi'i ddylunio i roi hyblygrwydd a threfniadau llywodraethu i awdurdodau lleol ynghylch sut y caiff y cronfeydd hyn eu gwario yn unol ag anghenion eu poblogaethau.

Fel rhan o bolisi Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o dryloywder wrth gyhoeddi setliad refeniw blynyddol llywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Llyfr Gwyrdd fel cydymaith ystadegol i Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn darparu gwybodaeth am gyfran pob awdurdod o'r dyraniad gwario ar lefel pob gwasanaeth sy'n rhan o'r setliad.

Mae gwybodaeth am y gyllideb a dyraniadau i awdurdodau lleol ar gael yn gyhoeddus ar StatsCymru. Yn ogystal, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar ddata gwariant alldro i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, sy'n cynnwys dadansoddiad o'r gwariant ar gyfer plant a theuluoedd.

Caiff penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru ar gyllidebau rhaglenni a grantiau Llywodraeth Cymru eu rhyddhau i'r cyhoedd drwy adroddiadau ar benderfyniadau a datganiadau ysgrifenedig.

4. **P'un a yw cyrff cyhoeddus wedi gosod digon o bwyslais ar ddull gwariant ataliol ar gyfer yr hirdymor, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau y gwneir y gorau o wariant cyhoeddus ar gyfer y grŵp hwn o blant.**

Mae dulliau ataliol, sy'n mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt ddatblygu, yn lleihau'r costau yn yr hirdymor ac yn darparu canlyniadau gwell i unigolion, trethdalwyr a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Mae'r manteision yn sgil ymyrraeth gynnar i'w gweld yn fwyaf nodedig ymysg plant a theuluoedd difreintiedig. Ceir corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos effeithiolrwydd, gwerth ac elw mawr ar fuddsoddiad mewn rhaglenni ymyrraeth y blynyddoedd cynnar o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a gwella datblygiad plant a'u rhagolygon pan fyddant yn oedolion.

<u>Cost a budd Teuluoedd yn Gyntaf</u>

Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella gwasanaethau drwy gynnig cymorth sy'n darparu ar gyfer teuluoedd cyfan yn hytrach nag unigolion, a hyrwyddo mwy o waith amlasiantaeth gan weithio i sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cydgysylltiedig pan fydd ei angen arnynt. Y nod yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu. Nod yr ymyriadau cynnar hyn yw atal teuluoedd

rhag bod ag angen am ofal adferol drud drwy wasanaethau statudol yn y dyfodol. Mae'r rhaglen yn mabwysiadu dull yn seiliedig ar gryfderau lle y caiff teuluoedd eu cefnogi i adnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda yn eu sefyllfaoedd hwy er mwyn eu cefnogi i gael eu grymuso a chymryd perchnogaeth o'u twf a'u datblygiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £290 miliwn yn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ers iddi gael ei datblygu. Roedd y dadansoddiad ariannol dangosol a gynhaliwyd fel rhan o raglen werthuso tair blynedd yn awgrymu bod gan y gwasanaethau a ddarperir drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf y potensial i gynnig arbedion cost mawr lle y caiff teuluoedd yr help i osgoi canlyniadau hirdymor gwael.

Ym mis Rhagfyr 2017, comisiynwyd Wavehill Research i arwain prosiect i ddatblygu offeryn arbed costau y gellid ei ddefnyddio i nodi'r arbedion y gellir eu gwneud drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu ar y cyd gan bob un o'r 22 tîm Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau bod Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i gynyddu i'r eithaf yr arbedion cost y gellir eu cyflawni drwy'r dull ymyrraeth gynnar ac atal. Fel rhan o'r Prosiect, bydd Wavehill yn ystyried a ellir cymhwyso'r offeryn ar draws rhaglenni ymyrraeth eraill megis Dechrau'n Deg.

Cost a budd - Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn cynnwys 4 elfen lle ceir tystiolaeth ryngwladol ynghylch y cyfraniad tuag at ganlyniadau cadarnhaol i blant. Un o'r elfennau hyn yw rhianta a gwyddom fod tystiolaeth gadarn o fanteision rhaglenni rhianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae costau darparu rhaglenni rhianta, o gymharu ag ymyriadau unioni, yn isel iawn. Hyd yn oed pe bai dim ond nifer bach o deuluoedd yn elwa o'r rhaglen a phe bai'r costau sy'n gysylltiedig â'r canlyniadau negyddol hyn yn cael eu hosgoi byddai costau'n cael eu harbed. Byddai manteision hirdymor unrhyw raglenni rhianta, felly, ond yn gorfod bod yn fach er mwyn gwneud y buddsoddiadau bach iawn mewn rhaglenni rhianta yn effeithlon.

Cyllideb Dechrau'n Deg

Rhaglen y blynyddoedd cynnar sydd wedi'i thargedu'n ddaearyddol yw Dechrau'n Deg sy'n anelu at wneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant 0 i 4 oed, yn yr ardaloedd lle mae'n rhedeg. Mae'r pedair elfen hyn yn cynnwys; gofal plant o ansawdd am ddim, cymorth rhianta, cymorth dwys gan ymwelydd iechyd, a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn ganolog i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar y blynyddoedd cynnar ac mae'n un o'r prif flaenoriaethau yn Symud Cymru Ymlaen.

Mae'r rhaglen Dechrau'n deg wedi'i thargedu gan ddefnyddio data budd-daliadau incwm a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r data yn darparu gwybodaeth i Awdurdodau Lleol ar ardaloedd daearyddol a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, sy'n dangos y cyfrannau uchaf o blant llai na phedair oed sy'n byw mewn aelwydydd sy'n cael budd-daliadau incwm. Mae'r rhaglen ar gael i'r holl blant o dan 4 oed a'u teuluoedd yn yr ardaloedd lle y caiff ei chynnal. Yn ystod 2013-14 a 2014-15 cafodd y rhaglen ei hehangu i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mwy na £628 miliwn ers ei sefydlu. Rydym wedi cyrraedd ein targed o ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg i 36,000 o blant am y drydedd flwyddyn yn olynol ac yn 2016/17, fe wnaeth 37,628 o blant elwa o'r rhaglen.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn defnyddio'r model 'Y Blynyddoedd Rhyfeddol'. Mae'r Blynyddoedd Rhyfeddol wedi bod yn destun sawl dadansoddiad cost a budd, pob un ohonynt yn dangos cryn arbedion ariannol pan gaiff y rhaglen ei rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r Uned Ymchwil Gymdeithasol yn Dartington yn amcangyfrif cyfradd o 6% o elwa ar fuddsoddiad a chymhareb cost a budd (punnoedd sy'n cael eu harbed am bob punt sy'n cael ei buddsoddi) o £1.37.

Mae'r ddwy raglen hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynllun Ariannu Hyblyg yn 2018-19 sy'n cael ei dreialu gan 7 awdurdod lleol sy'n cynnal cynlluniau braenaru.

Y Blynyddoedd Cynnar

Fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar sydd mor hanfodol bwysig i iechyd a datblygiad hirdymor plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach mewn bywyd.

Er mwyn cyflawni ein huchelgais i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, mae angen inni sicrhau bod yr holl raglenni a'r gwasanaethau ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn dod ynghyd yn ddi-dor er mwyn cael y gwerth gorau i rieni a phlant, o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

Mae swyddogion wedi dechrau trafod gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru o'r adrannau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, i gwmpasu sut i fynd â hyn ymlaen gyda'r nod o gyflawni dull gweithredu mwy cydlynol ag iddo ffocws o ran y blynyddoedd cynnar.

Un o brif elfennau'r rhaglen hon fydd prosiect cyd-adeiladu dwys gyda dau Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, un yn y Cymoedd ac un yng Ngogledd Cymru, i archwilio sut y gellid ad-drefnu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar gydweithio agosach rhwng byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Y nod cyffredinol fydd cynllunio gwasanaethau a fydd yn cefnogi dull ataliol, hirdymor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a allai gynnig model i gael ei ddefnyddio'n ehangach ledled Cymru.

# Briff Ychwanegol y Gofynnwyd Amdano gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi gofyn i friff ychwanegol gael ei gynnwys yn rhan o'r Papur Tystiolaeth hwn yn barod ar gyfer y sesiwn dystiolaeth ar 18 Mawrth.

## Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant

**1. Diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni'r saith canlyniad a ddymunir a nodir yn adroddiad Cam 1 y grŵp hwn ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu ac ar beth y mae £400,000 o gyllid Llywodraeth Cymru i gyflwyno Fframwaith Maethu ar gyfer Cymru yn cael ei wario?**

Dechreuodd rhaglen tair blynedd i weithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn 2017-18, yn dilyn y gwaith cwmpasu a wnaed yn ystod Cam 1 (2015-16) a'r gwaith datblygu yng Ngham 2 (2016-17). Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar Gam 2 ym mis Ebrill 2017[2], a bydd adroddiad ar y flwyddyn gyntaf o weithredu (Cam 3) yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

Mae rhaglen weithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn cael ei harwain gan lywodraeth leol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gan gynnwys partneriaid y trydydd sector. Darparodd Llywodraeth Cymru arian rheoli prosiect i gefnogi Camau 1 a 2 (£45,000 yn 2015-16 a £90,000 yn 2016-17), ac mae wedi darparu £400,000 i gefnogi'r flwyddyn lawn o weithredu. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sicrhau cytundeb gan ei aelodau i neilltuo £400,000 yn 2018-19, pan fydd yr arian yn cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw.

Ochr yn ochr â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu'r rhaglen o newid deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2016. Cynhelir ymgynghoriad ar set newydd o reoliadau maethu yn ystod haf 2018, a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2019. Cefnogir hyn gan god ymarfer ar gyfer awdurdodau lleol, a chanllawiau ar gyfer asiantaethau maethu annibynnol ar ddarparu gwasanaethau maethu. Ar y cyd â gweithredu'r Fframwaith Maethu, bydd hyn yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol a pholisi newydd i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal maeth a'u gofalwyr maeth.

Canlyniadau o Gam 1

Nododd gwaith cwmpasu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol saith maes blaenoriaeth i gefnogi gwell canlyniadau. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn pob un isod. Cyhoeddir y manylion llawn yn adroddiad cynnydd Cam 3 ym mis Ebrill.

[2] Mae adroddiad Cam 2 wedi'i gyhoeddi ar wefan Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru: http://www.adsscymru.org.uk/media-resources-list/national-fostering-framework-report-phase-2-2016-2017/

1. Fframwaith perfformiad ac adnoddau cenedlaethol

Canfu gwaith cwmpasu fod ffynonellau gwybodaeth am berfformiad yn dameidiog ac weithiau'n anodd cael gafael arnynt, a bod anghysondeb o ran pa wybodaeth a gesglir a sut. Datblygwyd y fframwaith perfformiad cenedlaethol fel bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn casglu set gyson o ddata. Fe'i treialwyd mewn naw ardal awdurdod lleol yn ystod 2016-17 cyn ei gyflwyno i bob awdurdod. Cynhyrchwyd adroddiad Cymru Gyfan ym mis Tachwedd 2017, ac fe'i defnyddiwyd i greu proffiliau rhanbarthol a datblygu rhaglenni gwaith rhanbarthol.

2. Fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyfarwyddyd polisi strategol drwy ei haelodaeth o Grŵp Llywio Strategol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, a datblygu rheoliadau a chanllawiau newydd ar wasanaethau maethu. Ein hamcanion polisi penodol ar gyfer gofal maeth yw: dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau maethu; mwy o fuddsoddiad wrth recriwtio, hyfforddi a chadw gofalwyr maeth, yn enwedig gan awdurdodau lleol; comisiynu lleoliadau maeth yn fwy effeithiol; a mwy o gysondeb ledled Cymru o ran canlyniadau i blant a phobl ifanc wedi'u maethu, ac o ran y cymorth i ofalwyr maeth. Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, a gynhyrchwyd ar y cyd â llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill, yn sefydlu fframwaith cydweithredol i gyflawni'r amcanion hyn ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda gwahanol swyddogaethau'n cael eu darparu ar y lefel briodol. Nodir y model cyflawni yn adroddiad Cam 2 (tudalennau 22-24).

3. Gofal maeth gan berthynas

Ein nod yw sicrhau y bydd pob plentyn sy'n byw gyda gofalwr maeth sy'n berthynas iddo yn cael gofal cyson, a darparu dull mwy cyson o asesu, cefnogi a hyfforddi gofalwyr maeth sy'n berthynas ledled Cymru. Arweiniwyd yr elfen hon o raglen y Fframwaith Maethu Cenedlaethol gan Gymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru, ac mae wedi cynnwys cwmpasu ac ymgynghori helaeth gydag ymarferwyr a gofal gan berthynas i sefydlu modelau arfer da. Bydd canllaw arfer gorau a chynllun gweithredu yn cael eu cyhoeddi yn ystod haf 2018, a byddant yn cael eu hymgorffori yn y rhaglenni gwaith rhanbarthol.

4. Comisiynu lleoliadau

Yn dilyn gweithdy comisiynu cenedlaethol ym mis Hydref 2016, mae Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant wedi datblygu templed cyffredin a chanllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu eu strategaethau comisiynu lleoliadau. Bydd hyn yn eu helpu i gyflawni eu dyletswydd, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i gymryd camau (cyn belled ag y bo'n ymarferol) i sicrhau eu bod yn gallu darparu llety i blant sy'n derbyn gofal yn yr ardal leol sy'n bodloni anghenion y plant. Lansiwyd y canllawiau mewn cynhadledd gomisiynu genedlaethol ym mis Ionawr 2018. Bydd y strategaethau lleol yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer datblygu dulliau rhanbarthol o gomisiynu gofal maeth a lleoliadau preswyl.

5. Fframwaith hyfforddiant cenedlaethol

Mae'r Rhwydwaith Maethu a Chymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru wedi datblygu fframwaith hyfforddiant cenedlaethol yn ystod 2017-18, a gaiff ei lansio yn yr haf a'i ymgorffori yn y rhaglenni gwaith rhanbarthol.

6. Strategaeth farchnata genedlaethol

Mae datblygu brand Cymru gyfan ar gyfer maethu, gyda chymorth gweithgarwch marchnata ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, yn dal i fod ar gam cynnar o ran ei ddatblygiad. Yn dilyn gweithdy ym mis Hydref 2017, cysylltwyd â nifer o ddarparwyr posibl fapio'r hyn y byddai ei angen. Bydd datblygu hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn 2018-19.

7. Strwythur talu ar gyfer ffioedd a lwfansau gofalwyr maeth

Cynhaliwyd gwaith mapio ar ffioedd a lwfansau awdurdodau lleol ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd yn ystod 2016-17, a bydd adroddiad dilynol gydag argymhellion yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill. Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd ymarfer mapio tebyg ar gyfer ffioedd a lwfansau gofal gan berthynas. Gwneir rhagor o waith i ddatblygu dull gweithredu Cymru gyfan yn ystod 2018-19, drwy ymgynghori â'r holl bartneriaid perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried gwahanol fodelau a dulliau gweithredu, a'r angen i ddatblygu polisïau a chanllawiau pellach i awdurdodau lleol. Y nod yw cysoni ffioedd a lwfansau, er mwyn sicrhau bod gofalwyr maeth ledled Cymru yn cael eu trin yn deg mewn perthynas â chymorth ariannol a chymorth arall.

Dyrannu grant £400,000 Llywodraeth Cymru

Dyrannwyd grant £400,000 Llywodraeth Cymru i awdurdod lleol Bro Morgannwg i'w reoli ar ran Grŵp Llywio Strategol y Fframwaith Marchnata Cenedlaethol, a sefydlodd Grŵp Monitro Grant i fonitro gwariant a chynnydd.

Dyrannwyd yr arian ar gyfer darnau penodol o waith fel a ganlyn er mwyn cyflawni'r meysydd gwaith blaenoriaeth a amlinellwyd uchod:

- Creu capasiti i sefydlu tîm canolog estynedig ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol er mwyn darparu cydlyniant ac arweinyddiaeth ar gyfer y Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- Sefydlu rhaglenni gwaith rhanbarthol.
- Gweithredu'r fframwaith perfformiad cenedlaethol ar draws pob awdurdod lleol.
- Creu brand Cymru gyfan ar gyfer maethu gan awdurdodau lleol a strategaeth farchnata ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Datblygu dull cenedlaethol o gomisiynu gwasanaethau maethu, gan gynnwys dadansoddiad o anghenion a strategaeth comisiynu lleoliadau ym mhob rhanbarth.
- Datblygu canllaw arfer gorau ar gyfer gofal gan berthynas a chynllun gweithredu.
- Parhau i weithio ar gysoni ffioedd a lwfansau i ofalwyr maeth.
- Datblygu fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth.

- Cynnal capasiti'r rhaglen a chapasiti rheolwyr y rhaglen.

Y gwariant mwyaf a'r cam gweithredu a oedd yn flaenoriaeth ar gyfer 2017-18 oedd sefydlu'r rhaglenni gwaith rhanbarthol. Dyrannwyd £40,000 i bob rhanbarth ar gyfer hyn. Mae'r fframwaith perfformiad cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i bennu blaenoriaethau rhanbarthol, a bydd y rhaglenni gwaith rhanbarthol yn rhan o'r cynllun busnes cyffredinol ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd yr union wariant ar bob elfen uchod o'r rhaglen waith ar gael ym mis Ebrill.

**2. Y cynnydd a wnaed hyd yma o ran y Cynllun Gwaith ar gyfer Cam 2 gan gynnwys unrhyw feysydd gwaith sy'n dod o dan y tri phrif bennawd a'r amserlen ar gyfer pob darn o waith.**

Ar hyn o bryd mae 3 ffrwd waith sy'n ffurfio Grŵp Cynghori'r Gweinidog a'r rheini'n cynnwys 27 maes gwaith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn pob un isod.

**<u>Ffrwd Waith 1 - Ymarfer Proffesiynol</u>**

| Maes Gwaith | Cynnydd | Amserlen |
|---|---|---|
| 1. Datblygu Safonau Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol sy'n amlinellu rôl, swyddogaeth, statws a chylch gwaith y Swyddogion hyn a chyfrifoldebau ymarferwyr allweddol yn y broses adolygu. | Dyfarnwyd contract i AfA Cymru i baratoi Safonau Ymarfer ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol. Bydd y drafft 1af ar gael ym mis Mawrth a chaiff ei rannu gyda grŵp o randdeiliaid wedi'i dargedu er mwyn cael eu sylwadau cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi. | Mehefin 2018 |
| 2. Datblygu Safonau Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol er mwyn galluogi plant i gael perthynas unigol a chyson gydag oedolyn sy'n berthynas y gallant ddibynnu arni. | Dyfarnwyd contract i NYAS i ddatblygu Safonau Ymarfer ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol. Mae'r Grŵp Llywio wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â'r gofynion. | Medi 2018 |
| 3. Datblygu ymchwil ar nifer y plant sy'n cael eu dargyfeirio o ofal a theuluoedd a gefnogir i aros gyda'i gilydd.<br><br>Cefnogi gostyngiad mewn anghydraddoldebau ymysg plant a thlodi ymysg plant drwy ymyriadau polisi cymdeithasol effeithiol. | Tendr ymchwil i'w ddatblygu. | Rhag 2019 |
| 4. Gwneud gwaith ymchwil ar ganlyniadau lleoliad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn dilyn gorchymyn Adran 31. | Dyfarnodd yr IPC gontract i ymgymryd ag ymchwil. Mae'r drafft terfynol yn cael ei baratoi a chaiff ei gyhoeddi ym mis Mawrth a bydd seminar ymchwil yn cael ei drefnu. | Mai 2018 |
| 5. Gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn | Nodwyd 37 o gamau yn y strategaeth 3 blynedd, '*Codi uchelgais a chyrhaeddiad* | Ebrill 2019 |

| | | |
|---|---|---|
| gofal. | *addysgol plant sy'n derbyn gofal'.* Nododd adroddiad Blwyddyn 1 a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 fod 16 wedi eu cyflawni, 9 yn rhannol. Bydd adroddiad Blwyddyn 2 yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018. | |
| 6. Rhoi cymorth i Weithredu'r Dull Cenedlaethol o ran Eiriolaeth Statudol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. | Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lywio'r broses o weithredu'r dull cenedlaethol a chanolbwyntio ar gynnig cymorth eiriolaethi yn rhagweithiol. | Medi 2018 |
| 7. Treialu'r Arolwg Bright Spots i fesur llesiant plant sy'n derbyn gofal a helpu i ddylanwadu ar welliannau o ran y ffordd y darperir gwasanaethau lleol. | Darparwyd £40,000 o arian i ddarparu arolwg peilot ar draws 6 ALI yng Nghymru. Bydd canfyddiadau a chanlyniadau'r arolwg yn cael eu hystyried cyn iddo gael ei gyflwyno ar draws pob un o'r 22 ALI. | Ebrill 2018 |
| 8. Sefydlu dull clir tuag at flaenoriaethau'r gweithlu i gefnogi staff sy'n ymwneud â phlant i gael digon o brofiad, sgiliau a gwybodaeth, gan gymryd i ystyriaeth y gofynion cynyddol ar gyfer gwaith uniongyrchol. | Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi sefydlu Grŵp Llywio i oruchwylio'r Adolygiad o Radd mewn Gwaith Cymdeithasol, gan gynnwys y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ac addysg ôl-gymhwyso. | Medi 2018 |
| 9. Parhau i gefnogi ac ymgorffori arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gydag unigolion sy'n gweithio gyda phlant. | Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyflwyno sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ledled Cymru. Cynigion ar gyfer pencampwyr a mentoriaid yn cael eu gwneud i ALlau mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaethau. | Medi 2018 |

## Ffrwd Waith 2 - Asesu Risg a Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal

| Maes Gwaith | Cynnydd | Amserlen |
|---|---|---|
| 10. Yn dilyn y buddsoddiad o £5 miliwn ym maes gofal, cynnal asesiad o wasanaethau gofal ym mhob un o'r 22 ALI, gan gynnwys effeithiolrwydd y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. | Dyrannu cyllideb o £5 miliwn i ALlau. Llywodraeth Cymru i lunio adroddiad diwedd y flwyddyn ariannol i asesu sut y mae arian yn cael ei ddefnyddio. | Parhaus |
| 11. Ystyried datblygu 'Peilot Oedi' yng Nghymru i gefnogi mamau y mae eu plant wedi bod yn rhan o'r system ofal sawl gwaith ac atal hynny rhag digwydd eto. | Sefydlwyd prosiectau Reflect mewn 7 rhanbarth yng Nghymru. Arweinwyr rhanbarthol yn cyfarfod ym mis Mawrth a Chynhadledd Genedlaethol ym mis Ebrill. | Parhaus |
| 12. Gweithredu mesurau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid. | Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i fonitro'r gwaith o'i gyflwyno. | Awst 2018 |

| | | |
|---|---|---|
| 13. Cynnal ymchwil i ganfod nifer y plant sydd â rhieni ag anabledd dysgu nad ydynt yn byw gartref mwyach a'r rhesymau dros eu newid statws. | Datblygwyd tendr ymchwil. Yn aros am sylwadau gan KAS a Gwasanaethau Penaethiaid Oedolion Cymru Gyfan cyn cyhoeddi'r tendr yn y flwyddyn ariannol newydd. | Ebrill 2019 |
| 14. Archwilio'r dulliau a'r offer a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i asesu ac adnabod risg er mwyn helpu i sicrhau dull cyson ar draws gwasanaethau plant. | Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu papur cwmpasu ar gyfer trafodaeth Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar sut y gellir symud ymlaen â hyn. | Rhag 2019 |
| 15. Archwilio a oes gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol fecanweithiau effeithiol ar gyfer asesiadau a chynlluniau sgrinio risgiau ac anghenion sy'n gymesur, yn amlasiantaethol ac yn seiliedig ar gudd-wybodaeth. | Fel gyda'r amcan uchod, cysylltu ac uno. | Rhag 2019 |
| 16. Ystyried y dystiolaeth a gynhyrchir fel rhan o Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a gynhelir ym mhob rhanbarth o Gymru o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | Cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru adroddiad cenedlaethol a chrynodeb o asesiadau poblogaeth rhanbarthol. | Mehefin 2018 |
| 17. Adolygu'r fframweithiau sicrhau ansawdd ffurfiol sy'n bodoli mewn awdurdodau lleol i ddod â gwybodaeth allweddol ynghyd mewn un lle, i ddarparu trosolwg o weithgarwch ar draws gwasanaethau cymdeithasol plant. | Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dangosyddion Sentinel i ddatblygu dangosyddion craidd i helpu i fonitro cynnydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog. | Mehefin 2018 |

## Cynllunio ar gyfer Parhad a Datblygu Lleoliadau Sefydlog

| Maes Gwaith | Cynnydd | Amserlen |
|---|---|---|
| 18. Gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol. | Mae'r broses weithredu'n mynd rhagddi'n dda (gweler C.1 uchod). Cynhadledd Genedlaethol ac Adroddiad Blynyddol ym mis Mawrth 2019 | Parhaus |
| 19. Diwygio ac ymestyn y canllawiau Rhianta Corfforaethol fel bod uwch swyddogion yn y meysydd tai, addysg, cyfiawnder troseddol, iechyd a | Cynhaliwyd digwyddiad Rhianta Corfforaethol ar 8 Chwefror. Mae Voices from Care yn gweithio ar ddiwygio canllawiau yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19. | Mai 2019 |

| | | |
|---|---|---|
| gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau corfforaethol am blant sy'n derbyn gofal. | | |
| 20. Adolygu Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a datblygu rheoliadau newydd a chod ymarfer ar gyfer ymgynghori yn gynnar yn 2017. | Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ymatebion o'r ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau pellach sydd eu hangen i'r Rheoliadau a'r Cod a fydd yn dod i rym ym mis Mehefin 2018. | Mehefin 2018 |
| 21. Datblygu dull cydgysylltiedig o wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl. | Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu a'i gefnogi gan £100,000 i gyflwyno ei raglen waith. 4 prosiect yn cael eu cynnal: proffil plant mewn gofal preswyl, modelau mapio darpariaeth, Pan fyddaf yn barod ar gyfer gofal preswyl, ac arfer da ar leoliadau y tu allan i'r ardal. | Rhag 2019 |
| 22. Ystyried cyflwyno prosiect peilot yng Nghymru a fydd yn profi ac yn gwerthuso egwyddorion addysgeg gymdeithasol (gan ganolbwyntio ar fagu plant) mewn amgylchedd gofal maeth. | Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cyflwyno peilot mewn partneriaeth â rhanbarth Cwm Taf. Cwblhawyd set gyntaf o ddosbarthiadau meistr ac mae'r gwaith o recriwtio hyrwyddwyr gofal maeth ar y gweill. | Ebrill 2019 |
| 23. Datblygu cynnig gweithredol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal i helpu i gynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal i symud ymlaen yn llwyddiannus i fyw'n annibynnol, gan gwmpasu meysydd fel:<br>- Mwy o opsiynau llety â chymorth sy'n hyrwyddo dewis i bobl sy'n gadael gofal<br>- Hyfforddiant ymwybyddiaeth ariannol ac ymwybyddiaeth o sgiliau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal<br>- Cefnogaeth i brentisiaethau a hyfforddeion | Cronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 filiwn i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a ddyrennir ar draws pob ALl. Llunio adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Dyrannwyd £625,000 i ALlau i ddatblygu cyfleoedd prentisiaethau a hyfforddeiaethau ym mhob ALl ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.<br><br>Ymgysylltu â:<br>- Yr Ymgyrch Ending Youth Homelessness<br>- Timau cynhwysiant ariannol ynghylch hyfforddiant sgiliau<br>- Llywodraeth leol ynghylch eithrio o'r dreth gyngor | Parhaus |
| 24. Datblygu model cenedlaethol ar gyfer cymorth mabwysiadu i sicrhau cymorth gwell i blant yn eu teuluoedd mabwysiadol a gwasanaeth mwy cyson ledled Cymru | Darparwyd £125,000 i ddatblygu model cenedlaethol o gymorth mabwysiadu. Dechreuodd y gwaith o weithredu'r fframwaith cymorth mabwysiadu gan gynnwys cyflwyno'r gwaith taith bywyd i blant mabwysiedig. | Ebrill 2019 |
| 25. Sicrhau bod Plant sy'n | Parhawyd i ymgysylltu â'r Swyddfa | Parhaus |

| | | |
|---|---|---|
| Ceisio Lloches ar eu Pennau eu Hunain sy’n ymgartrefu yng Nghymru’n cael eu cefnogi’n briodol a’u hintegreiddio i gymunedau yng Nghymru. | Gartref, gweinyddiaethau datganoledig a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru ynglŷn â throsglwyddiadau Dubs a'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. | |
| 26. Archwilio’r strategaethau lleoli/comisiynu sy’n bodoli mewn awdurdodau lleol i ganfod pa mor effeithiol ydynt o ran sicrhau ystod briodol o leoliadau sydd o ansawdd da, yn rhoi gwerth da ac yn ymateb i anghenion plant. | Mae ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn edrych ar strategaethau lleoli a chomisiynu a bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn dymuno ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor. | Ebrill 2020 |
| 27. Sicrhau bod yr holl blant sy'n derbyn gofal a'r plant sydd wedi derbyn gofal yn cael y lefel gywir o gymorth i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a hybu iechyd a lles emosiynol. | Mae tîm Gwella Canlyniadau i Blant yn ymgysylltu â chydweithwyr Iechyd Meddwl i sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd ag amcanion y prosiect Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi'n well. | Rhag 2019. |

**3. Pa waith sy'n cael ei wneud gan y grŵp neu gan Lywodraeth Cymru i wella'r ystod o ddata yn benodol ar y canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn o blant (yn hytrach na data perfformiad gwasanaethau cymdeithasol), yng nghyd-destun y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol sydd ag un dangosydd mewn perthynas â phlant sydd wedi bod mewn gofal.**

Caiff llesiant y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr ei fesur yn genedlaethol gan fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn nodi pum deg a dau o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol a ddiffiniwyd o dan wyth agwedd ar lesiant sy'n ymwneud â phob maes o fywyd unigolyn. Fel y saif y fframwaith, mae un dangosydd ar hyn o bryd sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal:

- Y sgôr pwyntiau allanol cyfartalog ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal.

Mae'r dangosydd hwn yn monitro cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn 16 mlwydd oed. Mae'r dangosydd yn ehangach na chyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 gan ei fod yn cynnwys pob cymhwyster allanol.

Mae saith dangosydd yn ymwneud â phlant sydd angen gofal a chymorth (yn cynnwys plant ar y gofrestr amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal):

- Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer plant mewn angen
- Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant mewn angen
- Cyfraddau presenoldeb plant mewn angen yn yr ysgol

- Canran y plant mewn angen sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig neu uwch ar ddiwedd y cyfnod sylfaen
- Canran y plant mewn angen sydd â phroblemau iechyd meddwl
- Canran y plant mewn angen sy'n gyfredol o ran imiwneiddio
- Canran y plant mewn angen sy'n gyfredol o ran archwiliadau deintyddol

Yn ystod 2018, byddwn yn parhau i adolygu'r fframwaith perfformiad hwn i sicrhau ei fod yn crynhoi canlyniadau'r rhai sy'n derbyn gofal ac yn cefnogi gofalwyr sy'n cael cymorth, gan gynnwys plant sydd wedi bod mewn gofal. Bydd yr adolygiad hefyd yn cynnwys ystyried sut y gall y fframwaith hwn gyd-fynd â fframweithiau canlyniadau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd ac o fewn cyd-destun strategol Ffyniant i Bawb a'r Adolygiad Seneddol.

Er mwyn sicrhau bod y data a gasglwn yn parhau i fod yn gynhwysfawr, yn addas at y diben ac yn gadarn mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol i ddatblygu dulliau mwy cadarn o gasglu data gofal cymdeithasol ar gyfer 2019/20.

Ar ôl cychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ym mis Ebrill 2016, newidiodd y data'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r casgliadau presennol nawr yn cynnwys 'Cyfrifiad o Blant sy'n Derbyn Gofal' a 'Cyfrifiad o Blant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth'. Cyhoeddwyd blwyddyn gyntaf y data rhwng Hydref 2017 a Chwefror 2018 ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dangosyddion Sentinel, dan gadeiryddiaeth David Melding AC, i helpu i ddatblygu set o ddangosyddion sentinel craidd a fydd yn helpu'r Grŵp i fesur cynnydd a chanlyniadau yn erbyn ei raglen waith ar gyfer 2017- 2020. Bydd angen i unrhyw ddangosyddion a ddatblygir gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys fframwaith canlyniadau'r gwasanaethau cymdeithasol, mesurau perfformiad a'r dangosyddion cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf ar 12 Chwefror i ystyried set o ddangosyddion (dim mwy na 10 i 15) yn seiliedig ar 3 thema graidd Grŵp Cynghori'r Gweinidog - atal plant rhag mynd i ofal, gwella canlyniadau i blant mewn gofal a chefnogi'r rhai sy'n gadael gofal wrth iddynt bontio i fyd oedolyn ac annibyniaeth.

Nododd y grŵp nifer o feysydd i'w datblygu ymhellach a oedd yn cwmpasu meysydd yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol, argaeledd a sefydlogrwydd lleoliadau, opsiynau tai i'r rhai sy'n gadael gofal, rhianta corfforaethol a sefydlogrwydd y gweithlu. Mae'r rhain yn cynnwys data o'r ystadegau a'r targedau presennol sydd eisoes ar waith ond hefyd rai meysydd lle y bydd angen gofynion cofnodi newydd. Pan gytunir ar hyn, bydd y grŵp yn ymgynghori â set o randdeiliaid wedi'u targedu ac yn ei gyflwyno i Grŵp Cynghori'r Gweinidog gytuno arno a'r bwriad yw y bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn adrodd yn erbyn y dangosyddion yn flynyddol.

## Cyllid

4. **Y sail resymegol y tu ôl i gynnig Llywodraeth Cymru i symud y dyraniadau gwerth £8 miliwn ar gyfer gwahanol ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal ac atal plant rhag mynd i ofal, i'r Grant Cynnal Refeniw o fis Ebrill 2018 ymlaen, o gofio bod y cyllid yn cael ei ddarparu i helpu i sbarduno rhaglen newid 3 blynedd a ddechreuodd yn 2017.**

Yn dilyn cyllideb y DU ym mis Mawrth 2017, dyrannwyd cyllid cylchol o £8 miliwn ychwanegol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Cyhoeddwyd yr arian hwn fel grant uniongyrchol i awdurdodau lleol yn 2017-18 a hysbyswyd awdurdodau lleol ar y pryd y bydd y dyraniad hwn yn symud i'r Grant Cynnal Refeniw yn y MEG Llywodraeth Leol o 2018-19 ymlaen.

Mae mabwysiadu dull rheoli grant yn ystod blwyddyn gyntaf y dyraniad wedi rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru osod disgwyliadau clir ar gyfer defnyddio'r arian hwn mewn ffordd gyson ledled Cymru. Mae gofyn i awdurdodau lleol adrodd ar wariant canol blwyddyn a bydd gofyn iddynt ddarparu adroddiad cynnydd pellach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd adroddiad diwedd blwyddyn ar gyfer pob grant yn cael ei baratoi i'w ystyried gan y Gweinidog a Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

Darperir dros £800 miliwn o arian refeniw a £215 miliwn o arian cyfalaf i Lywodraeth Leol yng Nghymru fel grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth y gall y grantiau niferus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fod yn rhwystr i wasanaethau effeithiol a chydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Mae grantiau'n faich gweinyddol ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi amcangyfrif y gellir amsugno rhwng 5% a 10% o werth y grant mewn costau gweinyddol. Mae Llywodraeth Leol wedi lobïo'n gyson ar gyfer trosglwyddo grantiau refeniw i'r setliad heb ei neilltuo ar y sail y byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau reoli pwysau ariannol. Bu mandad clir gan Weinidogion Cymru i symud arian i'r Grant Cynnal Refeniw, yn enwedig symiau llai o arian.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal nifer o fentrau mewn perthynas â darparu grantiau penodol, gyda'r bwriad o sicrhau bod yr arian yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cyfredol ac yn cael ei reoli mor effeithlon â phosibl.

Bu nifer o ymarferion i adolygu'r grantiau ar draws portffolios a throsglwyddwyd £285 miliwn i'r setliad ers 2011-12.

5. **Y sail resymegol y tu ôl i gynlluniau Llywodraeth Cymru i symud y Gronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 filiwn a grëwyd yn ddiweddar ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal i'r Grant Cynnal Refeniw.**

Yn yr un modd â'r £8 miliwn o gyllid canlyniadol y cyfeirir ato uchod, yr un yw'r rhesymeg dros symud Cronfa Dydd Gŵyl Dewi i'r Grant Cynnal Refeniw. Hoffai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol bod Cronfa Dydd Gŵyl Dewi wedi ei sefydlu fel cynllun grant 2 flynedd a bydd yn symud i'r Grant Cynnal Refeniw o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Oherwydd natur newydd y cynllun grant o ran darparu cyllid uniongyrchol i'r rhai sy'n gadael gofal i ymgymryd â gweithgareddau a fydd yn eu helpu i gyflawni eu huchelgais, bydd sefydlu'r cynllun fel grant 2 flynedd yn helpu'r Gronfa i fwrw gwreiddiau cadarn o fewn awdurdodau lleol. Oherwydd maint y gronfa pan gaiff ei rhannu ar draws y 22 awdurdod lleol, bydd hyn hefyd yn helpu awdurdodau lleol i reoli cyllid yn hyblyg dros gyfnod o 2 flynedd er mwyn diwallu anghenion eu poblogaethau sy'n gadael gofal.

Bydd y Pwyllgor hefyd am fod yn ymwybodol bod y Gronfa Dydd Gŵyl Dewi wedi ei chynnwys fel rhan o'r cynllun Ariannu Hyblyg yn 2018-19 sy'n cael ei dreialu gan 7 awdurdod lleol sy'n awdurdodau braenaru.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon